***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2013 No. 1466

# Gorchymyn Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 (Cychwyn, Diwygiadau Canlyniadol, Darpariaethau Trosiannol ac Arbed) (Cymru) 2013

**Enwi, cychwyn, cymhwyso a dehongli**

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 (Cychwyn, Diwygiadau Canlyniadol, Darpariaethau Trosiannol ac Arbed) (Cymru) 2013 a daw i rym yn unol ag erthyglau 2 a 3.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru.

(3) Yn y Gorchymyn hwn ystyr "y Ddeddf" yw Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013.

**Darpariaethau sy'n dod i rym ar 4 Gorffennaf 2013**

**2.** Daw darpariaethau canlynol y Ddeddf i rym ar 4 Gorffennaf 2013—

(a) adran 1 (trosolwg);

(b) adran 8 (sut y mae swyddogaethau i gael eu harfer), i'r graddau y mae'n angenrheidiol er mwyn paratoi'r cod ymarfer, y cod ymarfer archwilio, y cynllun blynyddol ac amcangyfrif o incwm a gwariant ar gyfer y flwyddyn ariannol 2014-15;

(c) adran 10 (cod ymarfer archwilio);

(d) adran 12 (trosglwyddo etc swyddogaethau goruchwyliol Gweinidogion Cymru: ymgynghori);

(e) adran 13 (ymgorffori Swyddfa Archwilio Cymru) ac eithrio mewn cysylltiad â darpariaethau sy'n ymwneud ag aelodau sy'n gyflogeion;

(f) adran 14 (pwerau);

(g) adran 15 (effeithlonrwydd);

(h) adran 16 (y berthynas â'r Archwilydd Cyffredinol);

(i) adran 17(2) a (3) (SAC i fonitro a darparu cyngor) i'r graddau y mae'n angenrheidiol er mwyn paratoi'r cod ymarfer, y cynllun blynyddol ac amcangyfrif o incwm a gwariant ar gyfer y flwyddyn ariannol 2014-15;

(j) adran 18 (dirprwyo swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol a'u harfer ar y cyd) i'r graddau y mae'n angenrheidiol er mwyn paratoi'r cynllun dirprwyo;

(k) adran 20 (gwariant) dim ond i'r graddau y mae'n ymwneud â'r flwyddyn ariannol 2014-2015;

(l) adran 24 (cynllun ar gyfer codi ffioedd);

(m) adran 25 (cynllun blynyddol);

(n) adran 26 (cynllun blynyddol: y Cynulliad Cenedlaethol);

(o) adran 27 (cynllun blynyddol: effaith);

(p) adran 28 (swyddogaethau'r Cynulliad Cenedlaethol);

(q) adran 29(1), (2), (3)(b) ac (c) a (4) (indemnio);

(r) adran 31 (cyfarwyddiadau);

(s) adran 32 (dehongli);

(t) adran 33 (darpariaethau trosiannol, atodol ac arbed etc);

(u) yn Atodlen 1 (ymgorffori Swyddfa Archwilio Cymru)—

(i) paragraff 1 (aelodaeth) ac eithrio mewn cysylltiad â darpariaethau sy'n ymwneud â'r aelodau sy'n gyflogeion;

(ii) paragraff 2 (penodi aelodau anweithredol ac aelodau sy'n gyflogeion) ac eithrio mewn cysylltiad â darpariaethau sy'n ymwneud â'r aelodau sy'n gyflogeion;

(iii) paragraff 3 (statws) ac eithrio mewn cysylltiad â darpariaethau sy'n ymwneud â'r aelodau sy'n gyflogeion;

(iv) paragraff 4 (penodi aelodau anweithredol);

(v) paragraff 5 (penodi cadeirydd ar SAC);

(vi) paragraff 6 (cyfnod penodi ac ailbenodi);

(vii) paragraff 7 (trefniadau talu cydnabyddiaeth);

(viii) paragraff 8 (telerau penodi eraill);

(ix) paragraff 9 (ymgynghori);

(x) paragraffau 10, 11 a 12 (dod â phenodiadau i ben);

(xi) paragraff 13 (talu cydnabyddiaeth ychwanegol i'r Archwilydd Cyffredinol);

(xii) paragraff 26 (anghymhwyso fel aelod o SAC neu gyflogai iddi) ac eithrio mewn cysylltiad â darpariaethau sy'n ymwneud â'r aelodau sy'n gyflogeion;

(xiii) paragraff 27 (cyffredinol);

(xiv) paragraff 28 (cworwm ar gyfer cyfarfodydd SAC);

(xv) paragraff 29(1) (pwyllgorau);

(xvi) paragraff 30 (cynnal pleidleisiau);

(xvii) paragraff 31 (dilysrwydd); a

(xviii) paragraff 32 (dirprwyo swyddogaethau) ac eithrio mewn cysylltiad â'r aelodau sy'n gyflogeion a chyflogeion;

(v) yn Atodlen 2 (y berthynas rhwng yr Archwilydd Cyffredinol a SAC)—

(i) paragraff 1 (paratoi a chymeradwyo etc);

(ii) paragraff 2 (cynnwys); a

(iii) paragraffau 5 i 14 (person arall, dros dro, yn arfer swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol);

(w) yn Atodlen 3 (darpariaethau trosiannol, atodol ac arbed)—

(i) paragraff 4 (rheolau gweithdrefnol SAC cyn i reolau gael eu gwneud o dan baragraff 27 o Atodlen 1); a

(ii) paragraff 13 (indemnio); ac

(x) paragraff 79(2) o Atodlen 4 (mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol) i'r graddau y mae'n ymwneud â pharagraff 12 o Atodlen 8 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006(**1**).

(**1**) 2006 p.32 .

**Darpariaethau sy'n dod i rym ar 1 Ebrill 2014**

**3.**—(1) Daw pob un o ddarpariaethau eraill y Ddeddf i rym ar 1 Ebrill 2014 i'r graddau nad ydynt wedi eu cychwyn yn unol ag erthygl 2.

(2) Mae'r Atodlen i'r Gorchymyn hwn yn darparu ar gyfer diwygiadau canlyniadol a ddaw i rym ar 1 Ebrill 2014.

**Darpariaethau Trosiannol**

**4.**—(1) Mewn perthynas â'r cyfnod pan fo penodiad archwilydd o dan adran 13 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004(**2**) yn cael ei barhau gan baragraff 2(2) o Atodlen 3 i'r Ddeddf, mae'r canlynol yn cael effaith fel petaent heb eu diwygio gan y Gorchymyn hwn—

(a) y diffiniad o "the auditor" yn rheoliad 2 o Reoliadau Awdurdodau Lleol (Contractau) 1997(**3**);

(b) rheoliad 6(5)(b) o Reoliadau Grantiau Safonau Addysg (Cymru) 2002(**4**);

(c) rheoliad 5(4)(b) o Reoliadau Addysg (Grantiau Cyfalaf) (Cymru) 2002(**5**);

(d) rheoliad 6(6)(b) o Reoliadau Addysg (Cynllun Grant Dysgu'r Cynulliad) (Cymru) 2002(**6**); ac

(e) Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2005(**7**).

(2) Mae penodiad unrhyw berson fel archwilydd o dan adran 145B(5)(b) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**8**) yn parhau i gael effaith tan ddiwedd y cyfnod y gwnaed y penodiad ar ei gyfer (yn ddarostyngedig i derfynu'n gynnar).

(3) Nid yw'r diwygiadau sydd wedi eu gwneud i erthygl 4(2)(c)(v) o Orchymyn Hepgor Contractau Adeiladu (Cymru a Lloegr) 1998(**9**) gan y Gorchymyn hwn yn gymwys i gontractau yr ymrwymwyd iddynt ar 31 Mawrth 2014 neu cyn hynny.

**Darpariaeth Arbed**

**5.** Mae paragraffau 13, 14 a 15 o Atodlen 8 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 wedi eu harbed at ddibenion cyfrifon Archwilydd Cyffredinol Cymru ar gyfer blwyddyn ariannol 2013-2014.

*Jane Hutt*
Gweinidog dros Cyllid, un o Weinidogion Cymru

11 Mehefin 2013

(**2**) 2004 p. 23 .
(**3**) O.S. 1997/2862 fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2005/761 (Cy. 65). Mae offerynnau diwygio eraill nad ydynt yn berthnasol i'r Gorchymyn hwn.
(**4**) O.S. 2002/438 (Cy. 56) fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2005/761 (Cy. 65).
(**5**) O.S. 2002/679 (Cy. 76) fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2005/761 (Cy. 65).
(**6**) O.S. 2002/1857 (Cy. 181) fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2005/761 (Cy. 65). Mae offerynnau diwygio eraill nad ydynt yn berthnasol i'r Gorchymyn hwn.
(**7**) O.S. 2005/368 (Cy. 34) y mae iddo ddiwygiadau nad ydynt yn berthnasol i'r Gorchymyn hwn.
(**8**) 1998 p.38.
(**9**) O.S. 1998/648 fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2005/757 (Cy. 62). Mae offeryn diwygio arall nad yw'n berthnasol i'r Gorchymyn hwn.